## Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd Prifysgol Wrecsam

# POLISI GYRFAOEDD MOESEGOL

Fel un o adrannau Prifysgol Wrecsam sydd, yn aml, yn gweithredu fel pont rhwng myfyrwyr, graddedigion a sefydliadau trydydd parti, rydym yn cymryd ein cyfrifoldeb o ran cyfiawnder cymdeithasol a chyfiawnder hinsawdd o ddifrif, gan wneud ein gorau i ddewis a dethol y sefydliadau y byddwn/na fyddwn yn gweithio gyda nhw.

Ein dull yw hyrwyddo'r wybodaeth sydd ar gael yn rhwydd yn gyhoeddus ynglŷn â materion moesegol yn ymwneud â chwilio am yrfaoedd a phenderfyniadau ynghylch gyrfaoedd. Rydym yn parchu hawl defnyddwyr y gwasanaeth i ddewis ac rydym yn eu hannog i gysylltu penderfyniadau gyrfaoedd â'u gwerthoedd nhw eu hunain.

Mae Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd Prifysgol Wrecsam yn ceisio hwyluso cydweithredu sy'n cyfrannu at wella'r gymdeithas a'r amgylchedd. O ganlyniad i hyn, mae yna rai diwydiannau sy'n rhwystrau sylfaenol rhag sicrhau byd mwy cyfiawn a chynaliadwy.

Yn y dyfodol, ni fydd Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd Prifysgol Wrecsam yn cydweithio â'r diwydiannau/cwmnïau canlynol, nac yn arddel cydberthynas â nhw, yn unrhyw un o'i ffrydiau gwaith:

Cwmnïau arfau sydd â chysylltiad diamwys â gweithgynhyrchu neu drosglwyddo arfau neu gyfarpar arall a ddefnyddir i dreisio hawliau dynol neu a gyflenwir i gyfundrefnau gormesol

Cwmnïau Tanwydd Ffosil, fel y'u diffinnir yn Carbon Underground 200

Cwmnïau mwyngloddio, yn cynnwys y 100 cwmni glo a nodir yn Carbon Underground 200 a'r cwmnïau a nodir yn Transition Mineral Mining 50

Cwmnïau tybaco a chwmnïau sy'n cynhyrchu cynhyrchion sy'n seiliedig ar dybaco

Cwmnïau sy'n gysylltiedig â chreulondeb i anifeiliaid, yn cynnwys cynnal profion ar anifeiliaid ar gyfer cynhyrchion anfeddygol

Fel sefydliad addysg uwch, mae'n bwysig inni wrando ar ofynion y mudiad myfyrwyr, a gweithredu ar sail y gofynion hynny.

Gwasanaeth cymorth ym Mhrifysgol Wrecsam yw Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd Prifysgol Wrecsam, ac o'r herwydd mae'n dilyn Polisïau, Strategaethau a Chynlluniau Cynaliadwyedd Prifysgol Wrecsam. I gael rhagor o wybodaeth, gweler yma: https://glyndwr.ac.uk/cy/cynaliadwyedd/polisiau-a-dogfennau/

Llofnodwyd y polisi gan:

LYNDA POWELL, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau 02.06.2023

LUCY JONES, Rheolwr Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd 02.06.2023

holwch Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd

V3 30052023

ask Careers and Employability